MOMA MACHYNLLETH

Full programme

# AWST 18-25 AUGUST 2024

The best in Classical, World & Welsh Music, Exhibitions & Talks in the heart of Wales

Y gorau o gerddoriaeth Glasurol, Cymru a'r Byd, Arddangosfeydd a Sgyrsiau yng nghalon Cymru

# Gŵyl Machynlleth Festival



machynllethfestival.co.uk

/momamachynlleth



# Welcome Croeso

**Following a bumper year in 2023 when we welcomed over 2000 people through our doors, the Machynlleth Festival is back for another week packed with Welsh, classical and world music.**

What makes this festival special, aside from the wonderful programme, is its friendly, welcoming atmosphere. Concerts take place in the Tabernacle, an intimate space with a fantastic acoustic, all the events are introduced from the stage, programmes are free and you can enjoy a drink from the Tabernacle's bar in the comfort of your seat.

This year we've a very special treat too as the Welsh and classical parts of the festival combine in a celebratory final concert, with an all-star line up.

Whether you come to one event, or take advantage of our season ticket and immerse yourself in music for the week, you can be sure of a very warm welcome.

**Artistic Directors** – Julius Drake & Dennis Jones
**Festival Director** Sally Marshall
and the 2024 Festival team

***Yn dilyn blwyddyn arbennig o dda yn 2023, lle croesawyd dros 2000 o bobl drwy ein drysau, mae Gŵyl Machynlleth yn ôl am wythnos arall sy'n llawn dop o gerddoriaeth Gymraeg, cerddoriaeth glasurol a cherddoriaeth y byd.***

*Yr hyn sy'n gwneud yr ŵyl hon yn arbennig, ar wahân i'r rhaglen wych, yw ei hamgylchedd cyfeillgar a chroesawgar. Cynhelir y cyngherddau yn y Tabernacl, sy'n ofod cartrefol sydd ag acwsteg wych. Cyflwynir yr holl ddigwyddiadau o'r llwyfan, mae'r rhaglenni'n rhad ac am ddim, a gallwch fwynhau diod o far y Tabernacl yn eich sedd.*

*Eleni, mae gennym ni wledd arbennig iawn hefyd wrth i rannau Cymreig a chlasurol yr ŵyl ddod at ei gilydd mewn cyngerdd olaf i ddathlu.*

*P'un a ydych chi'n dod i un digwyddiad neu'n manteisio ar ein tocyn tymor ac yn ymgolli mewn cerddoriaeth drwy'r wythnos gyfan, byddwch yn siŵr o gael croeso cynnes iawn.*

Design/dylunio: Formation Creative. Illustrations/gwaith celf: Glasbrint

# Programme Rhaglen

| TIME | EVENT | PRICE | PAGE |
|---|---|---|---|
| **Sunday 18 August – Dydd Sul 18 Awst** | | | |
| 7.30pm | Cymanfa Ganu | FREE | 5 |
| **Monday 19 August – Dydd Llun 19 Awst** | | | |
| 1.00pm | Triano vocal trio | £10 | 5 |
| 7.30pm | Three Soloists | £20 | 6 |
| **Tuesday 20 August – Dydd Mawrth 20 Awst** | | | |
| 1.00pm | Family event – Professor Llusern | FREE | 7 |
| 4.00pm | Sponsor's Concert: Cabaret! | – | 20 |
| 7.30pm | Cantorion Gogledd Cymru | £20 | 7 |
| **Wednesday 21 August – Dydd Mercher 21 Awst** | | | |
| 10.00am | Market Day Open Air Concert | FREE | 8 |
| 1.00pm | Hallstatt Lecture – Ioan Rhys Lord | £15 | 8 |
| 3.00pm | Tango Dance Workshop | FREE | 9 |
| 7.30pm | Tango Calor | £22 | 9 |
| **Thursday 22 August – Dydd Iau 22 Awst** | | | |
| 11.00am | Masterclass with Sir John Tomlinson. Session 1 | £10 | 10 |
| 1.00pm | Into the Woods | £15 | 10 |
| 2.00pm | Masterclass with Sir John Tomlinson. Session 2 | £10 | 10 |
| 4.30pm | Masterclass concert | £10 | 10 |
| 6.30pm | Cook's Tours: Sir John Tomlinson in Conversation | FREE | 18 |
| 7.30pm | Llŷr Williams plays Chopin | £22 | 11 |
| **Friday 23 August – Dydd Gwener 23 Awst** | | | |
| 1.00pm | Glyndŵr Award – Peter Lord | £15 | 12 |
| 6.30pm | Cook's Tours: Ménage a Quatuor | FREE | 19 |
| 7.30pm | Marmen Quartet & John Myerscough | £22 | 13 |
| 10.00pm | By candlelight: Songs of Love, Exile and Hope | £15 | 12 |
| **Saturday 24 August – Dydd Sadwrn 24 Awst** | | | |
| 1.00pm | Poulenc's one act opera The Human Voice (La Voix Humaine) | £15 | 14 |
| 6.30pm | Cook's Tours: Shaking the Kaleidoscope | FREE | 19 |
| 7.30pm | Kaleidoscope Chamber Collective | £22 | 15 |
| 10.00pm | By candlelight: A Celebration of Bach | £15 | 14 |
| **Sunday 25 August – Dydd Sul 25 Awst** | | | |
| 2.00pm | Festival Finale! with Romaniw, Huws, Jones and Drake | £22 | 16 |

# Free events

As ever, we have a range of **free** events taking place across the Festival week. Join in!

*Digwyddiadau **am ddim** sy'n cael eu cynnal yn ystod wythnos yr Ŵyl!*

## Cymanfa Ganu

See details opposite page.
*Gweler y manylion ar y dudalen gyferbyn.*

## Open Air Performances

Wednesday 21 Aug
Dydd Mercher 21 Awst

10.00am
Market / Heol Maengwyn - see p8.

This is a non-ticketed event.
*Mae hwn yn ddigwyddiad di-docyn.*



## Professor Llusern family event

Tuesday 20 Aug
Dydd Mawrth 20 Awst

1.00pm
Y Tabernacl - see p7.

Please book tickets in advance.
*Archebwch docynnau ymlaen llaw.*



## Tango Workshop

Wednesday 21 Aug
Dydd Mercher 21 Awst

3.00pm
Canolfan Owain Glyndŵr Centre
 - see p9.

This is a non-ticketed event.
*Mae hwn yn ddigwyddiad di-docyn.*






Gyda / with

**Côr Meibion Aberystwyth**

Sunday 18 Aug
Nos Sul 18 Awst

7.30pm **FREE**
Y Tabernacl
2hrs

A unique feature of Welsh music, the Cymanfa Ganu is a festival of sacred hymns sung by the audience in four-part harmony. We invite you to continue this tradition by helping us open the 2024 Festival with our own Cymanfa Ganu, this year with Côr Meibion Aberystwyth and conductor Alwyn Evans.

*Mae'r Gymanfa Ganu yn nodwedd unigryw o gerddoriaeth Gymraeg. Bydd yn ŵyl o emynau sanctaidd a fydd yn cael eu canu gan y gynulleidfa mewn harmoni pedair rhan. Rydyn ni'n eich gwahodd i barhau â'r traddodiad hwn drwy ein helpu i agor Gŵyl 2024 gyda'n Cymanfa Ganu ein hunain, eleni gyda Chôr Meibion Aberystwyth a'r arweinydd Alwyn Evans.*

Non-ticketed event, **simply turn up!**

Digwyddiad heb docyn **dewch draw!**

Monday 19 Aug
Dydd Llun 19 Awst

1.00pm £10
Y Tabernacl
1hr

**A unique vocal trio!**




Spend an hour in the company of these supremely talented young artists. Triano are a vocal harmony trio like no other, formed of triplets Charlotte, Jessica and Emily. Known not just for their singing but for their skills on the piano, they've performed with singers including Bryn Fôn, Dafydd Iwan, Rhys Meirion, Gwawr Edwards and Robyn Lyn, and in events at the Aberystwyth Arts Centre and National Eisteddfod in Tregaron – and now here at the Machynlleth Festival.

*Beth am dreulio awr yng nghwmni'r artistiaid ifanc hynod dalentog hyn. Mae Triano yn driawd harmoni lleisiol cwbl unigryw. Mae'n cynnwys y tripledi Charlotte, Jessica ac Emily. Mae nhw'n adnabyddus nid yn unig am eu sgiliau canu ond am eu sgiliau ar y piano. Mae nhw wedi perfformio gyda chantorion adnabyddus iawn fel Bryn Fôn, Dafydd Iwan, Rhys Meirion, Gwawr Edwards a Robyn Lyn, ac ar lwyfannau Canolfan y Celfyddydau yn Aberystwyth a'r Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron – a nawr yma yng Ngŵyl Machynlleth.*





Monday 19 Aug
Nos Lun 19 Awst
7.30pm £20
Y Tabernacl
2hrs / interval *egwyl*

**Elgan Llŷr Thomas** Tenor
**Meinir Wyn Roberts** Soprano
**Steffan Lloyd Owen** Baritone
**Eirian Owen** Piano

# Three Soloists

Outstanding Welsh soloists come together for a night of musical joy. Our 'Three Soloists' concert is always one of the most popular of the Festival, so secure your tickets early!

*Daw unawdwyr arbennig o Gymru at ei gilydd am noson o lawenydd cerddorol. Mae ein cyngerdd 'Tri Unawdydd' bob amser yn un o'r rhai mwyaf poblogaidd yn yr Ŵyl, felly archebwch eich tocynnau'n gynnar!*

"The Festival is a great time to meet friends, old and new. We are SO lucky to be blessed with the quality of performer and performances - world class!"

Quote from audience member



Box Office / Swyddfa Tocynnau: **01654 703355**

Tuesday 20 Aug
Dydd Mawrth 20 Awst

1.00pm **FREE**
Y Tabernacl
1hr



# Professor Llusern

**Family event**

A free fun-packed lunchtime event, with Professor Llusern providing an hour of entertainment for all the family.

*Digwyddiad amser cinio yn llawn hwyl am ddim, gyda'r Athro Llusern yn darparu awr o hwyl i'r teulu cyfan.*



Tuesday 20 Aug
Nos Fawrth 20 Awst

7.30pm £20
Y Tabernacl
2hrs / interval *egwyl*

**Catrin Aur** Soprano
**Aled Wyn Davies** Tenor
**Aled Edwards** Conductor

# Cantorion Gogledd Cymru

We welcome back internationally renowned Welsh male voice choir Cantorion Gogledd Cymru, joined by Welsh soloists Catrin Aur and Aled Wyn Davies, in a programme delivering the essential passion, dynamics and hair-raising finale expected of Welsh male voice choirs. **We advise you to buy your tickets early to avoid disappointment.**

*Rydyn ni'n croesawu Cantorion Gogledd Cymru, sy'n enwog yn rhyngwladol, ynghyd â'r unawdwyr o Gymru, Catrin Aur ac Aled Wyn Davies, mewn rhaglen sy'n cyflwyno'r angerdd, y ddeinameg a'r diweddglo arbennig a ddisgwylir gan gorau meibion Cymru.* ***Rydyn ni'n eich cynghori i brynu eich tocynnau'n gynnar er mwyn osgoi cael eich siomi.***



Wednesday 21 Aug
Dydd Mercher 21 Awst

10.00am **FREE**
Heol Maengwyn
3hrs

# Open Air Concert

Join us around the town centre on Market Day to enjoy free concerts by international and local musicians including baritone Damien Pass and pianist Alphonse Cemin, Phil Wheeler and the Sunshine Jazz Band, the Machynlleth Wind Band and many more.

*Ymunwch â ni o gwmpas canol y dref ar Ddiwrnod Marchnad i fwynhau cyngherddau rhad ac am ddim gan gerddorion rhyngwladol a lleol, gan gynnwys y bariton Damien Pass a'r pianydd Alphonse Cemin, Phil Wheeler a'r Sunshine Jazz Band, Band Chwyth Machynlleth a llawer mwy.*

Wednesday 21 Aug
Dydd Mercher 21 Awst

1.00pm £15
Y Tabernacl
1hr



# Hallstatt Lecture

**Ioan Rhys Lord**
"Worn by Tools and Time"

A fascinating look at the history and culture of the metal mining industry in north Ceredigion, with expert Ioan Rhys Lord.

*"The author's infectious enthusiasm, his mining of the archives for new information, and a willingness to throw himself down any available opening into the underground workings of a mine have blossomed into this volume"* – Mark Walters, Archaeologia Cambrensis, reviewing Ioan Rhys Lord's book, 'Worn by Tools and Time'.

*Golwg hynod ddiddorol ar hanes a diwylliant y diwydiant cloddio metel yng ngogledd Ceredigion gyda'r arbenigwr Ioan Rhys Lord.*

"Mae brwdfrydedd heintus yr awdur, ei waith yn pori drwy'r archifau i ddod o hyd i wybodaeth newydd, a'i barodrwydd i daflu ei hun i lawr unrhyw agoriad sydd ar gael i waith tanddaearol mwynglawdd wedi blodeuo i mewn i'r gyfrol hon" – *Mark Walters, Archaeologia Cambrensis, yn adolygu llyfr Ioan Rhys Lord, 'Worn by Tools and Time'.*



Box Office / Swyddfa Tocynnau: **01654 703355**

Wednesday 21 Aug
Dydd Mercher 21 Awst

3.00pm **FREE**
Canolfan Owain Glyndŵr Centre
1hr

# Tango Workshop

Join the Tango Calor trio in a tango dance workshop. A chance for beginners to try out this vibrant dance style in a free workshop – no booking necessary!

*Ymunwch â thriawd Tango Calor mewn gweithdy dawns tango. Cyfle i ddechreuwyr roi cynnig ar yr arddull dawns fywiog hon mewn gweithdy am ddim – does dim angen archebu lle!*



Wednesday 21 Aug
Nos Fercher 21 Awst

7.30pm £22
Y Tabernacl
2hrs / interval *egwyl*

# Tango Calor

This brilliant Tango trio bring the heat, colour and sensuality of South America to Machynlleth, and features bandoneonist Mirek Salmon, guitar virtuoso Daryl Kellie and sensational vocalist Indira Roman.

*Mae'r triawd Tango gwych hwn yn dod â sbeis, lliw a chariad synhwyrol De America i Fachynlleth, ac mae'n cynnwys y chwaraewr bandoneon Mirek Salmon, meistr y gitâr Daryl Kellie, a'r canwr anhygoel Indira Roman.*

Thursday 22 Aug
Dydd Iau 22 Awst

**Masterclass** 11.00–12.45 & 2.00–3.45, Tannery Gallery
**Concert** 4.30pm, Y Tabernacl
£10 - includes both sessions and concert.
Yn cynnwys sesiynau a chyngerdd.

COOK'S TOURS see p18 free 6.30pm TEITHIAU COOK



# Masterclass

## Masterclass & concert with Sir John Tomlinson

A chance to watch as the renowned bass Sir John Tomlinson coaches a group of hand-picked young singers. Drop in to either or both Masterclass sessions and then join us for the concert at 4.30pm where the day's work is presented in a final performance on the Tabernacle Stage.

**Aleksandra Myslek** Piano

*Cyfle i wylio wrth i'r bas enwog, Sir John Tomlinson, hyfforddi grŵp o gantorion ifanc. Galwch heibio i un o'r sesiynau Dosbarth Meistr, neu'r ddau ohonynt, ac yna ymunwch â ni ar gyfer y cyngerdd am 4.30pm lle caiff gwaith y diwrnod ei gyflwyno mewn perfformiad terfynol ar lwyfan y Tabernacl.*

Thursday 22 Aug
Dydd Iau 22 Awst

1.00pm £15
Y Tabernacl
1hr



# Into the Woods

This brilliant young duo present a delightfully varied song recital ranging from Schubert to Sondheim, Satie to 'Waltzing Matilda'.

**Damien Pass** Baritone
**Alphonse Cemin** Piano

*Mae'r ddeuawd ifanc wych hon yn cyflwyno datganiad o ganeuon hyfryd ac amrywiol sy'n cynnwys Schubert, Sondheim, Satie a 'Waltzing Matilda'.*

**Concert Includes:**
**Stephen Sondheim** *No One Is Alone* (from *Into the Woods*)
**Erik Satie** *Trois Melodies*
**Franz Schubert** *Der Doppelgänger*



Thursday 22 Aug
Nos Iau 22 Awst

7.30pm £22
Y Tabernacl
2hrs / interval *egwyl*

# Llŷr Williams plays Chopin

The famed Welsh pianist plays a glorious selection of music by one of the greatest composers for the instrument, Frédéric Chopin. Included in the programme are several of his Mazurkas, his take on the Polish dance - mini masterpieces that can take the listener by surprise in their abrupt changes of mood. Some of the composer's most fiery music can be found in his Scherzos, with No.3 being no exception. Your evening closes with the *Polonaise-Fantasie*, which moves in a flash from introspection and melancholy to ecstasy and celebration.

*Bydd y pianydd enwog o Gymru yn chwarae detholiad gogoneddus o ddarnau gan un o gyfansoddwyr gorau'r piano, Frédéric Chopin. Mae sawl Mazurka Chopin, sef ei fersiwn ef ar y ddawns o Wlad Pwyl, wedi'u cynnwys yn y rhaglen – campweithiau bach sy'n gallu synnu'r gwrandawyr wrth iddynt newid eu hwyliau'n sydyn. Mae rhywfaint o gerddoriaeth fwyaf angerddol y cyfansoddwr i'w gweld yn ei Scherzos, ac nid yw Rhif 3 yn eithriad. Bydd yn cloi'r noson gyda'r* Polonaise-Fantasie*, sy'n newid mewn fflach o fewnsyllu eithaf digalon i fod yn dathlu'n ecstatig.*

**Frédéric Chopin**

**Fantaisie in F minor, op.49**
**Four Mazurkas, op.24**
**Nocturne in C-sharp minor, op.27 no.1**
**Nocturne in G minor, op.37 no.1**
**Scherzo No.3 in C-sharp minor, op.39**
**Polonaise in F-sharp minor, op.44**
**Impromptu no.2 in F-sharp major, op.36**
**Impromptu no.3 in G-flat major, op.51**
**Two Mazurkas op.50**
**Mazurka, op.63**
**Polonaise-fantaisie in A-flat major, op.61**


**Llŷr Williams** Piano

COOK'S TOURS
see p18
free
6.30pm
TEITHIAU COOK

"An outstanding musical experience and a wonderful venue"

Quote from audience member

Friday 23 Aug
Dydd Gwener 23 Awst
1.00pm £15
Y Tabernacl
1hr




# Glyndŵr Award

## Peter Lord

Join us for the presentation of the 2024 Glyndŵr Award to the sculptor and art historian Peter Lord. Peter is regarded as a leading authority on the history of Welsh art and will be joined today by Professor M Wynn Thomas, the Emyr Humphreys Chair of Welsh Writing in English at Swansea University, to discuss his life and varied career which has encompassed sculpting, writing and broadcasting.

*Ymunwch â ni ar gyfer cyflwyno Gwobr Glyndŵr 2024 i'r cerflunydd a'r hanesydd celf Peter Lord. Bydd Peter, sy'n cael ei ystyried yn awdurdod blaenllaw ar hanes celfyddyd Cymru, yn ymuno â'r Athro M Wynn Thomas, deilydd Cadair Emyr Humphreys mewn Ysgrifennu Saesneg yng Nghymru ym Mhrifysgol Abertawe, i drafod ei fywyd a'i yrfa amrywiol sydd wedi cynnwys cerflunio, ysgrifennu a darlledu.*

Friday 23 Aug
Nos Wener 23 Awst
10.00pm £15
Y Tabernacl
1hr

## Alice Zawadzki

# Songs of Love, Exile & Hope

## Late Night by Candlelight

An atmospheric late night treat with Alice Zawadzki – a singer and song writer who combines elements of folk, classical, jazz and improvisation to give her a unique and compelling voice, here performing with her all-star trio.

*Dyma wledd atmosfferig ddiwedd nos gydag Alice Zawadzki; canwr a chyfansoddwr sy'n cyfuno elfennau o gerddoriaeth werin, clasurol, jazz a byrfyfyrio i roi llais unigryw a gafaelgar iddi, sydd yma'n perfformio gyda'i thriawd o sêr.*





Friday 23 Aug
Nos Wener 23 Awst

7.30pm £22
Y Tabernacl
2hrs / interval *egwyl*

# Schubert's String Quintet

Schubert's tragically beautiful String Quintet crowns this concert. Every movement is sublime, from the graceful cello duet in the opening to the rhythmic attack of the finale. The emotional heart of the piece is the poignant and transcendent slow movement. Earlier you'll hear Ravel's ravishing string quartet and Haydn's String Quartet in D major, full of the composers trademark cheeky wit and invention.

*Mae Pumawd Llinynnol trasig Schubert yn coroni'r cyngerdd hwn. Mae pob symudiad yn arbennig, o ddeuawd gosgeiddig y soddgrwth yn yr agoriad i ymosodiad rhythmig y diweddglo. Calon emosiynol y darn yw'r symudiad araf ingol a rhagorol. Yn gynharach, byddwch yn clywed pedwarawd llinynnol dyfeisgar Ravel a Phedwarawd Llinynnol Haydn yn D fwyaf, sy'n llawn ffraethineb a dyfeisgarwch nodedig y cyfansoddwyr.*

**Marmen String Quartet**
**John Myerscough** Cello

**Joseph Haydn** String Quartet in D Op. 33 No. 6
**Maurice Ravel** String Quartet
**Franz Schubert** String Quintet

"Amazing value for money"
Quote from audience member

COOK'S TOURS
see p19
free
6.30pm
TEITHIAU COOK



# La Voix Humaine
## (the human voice)

Saturday 24 Aug
Dydd Sadwrn 24 Awst

1.00pm £15
Y Tabernacl
1hr

**Mercedes Gancedo** Soprano
**Julius Drake** Piano
**Marc Busquets** Director

Francis Poulenc's heartbreaking one act opera for soprano and piano tells the story of Elle, alone in her apartment, waiting for her lover to telephone for the last time. Performed by the remarkable soprano, Mercedes Gancedo, with our Festival Co-Artistic Director, the renowned pianist Julius Drake, it is fifty minutes of extraordinary intensity, elation and despair.

*Mae opera un act arloesol Francis Poulenc ar gyfer soprano a phiano yn adrodd stori Elle, sydd ar ei phen ei hun yn ei fflat yn aros i'w chariad ei ffonio am y tro olaf. Fe'i perfformir gan y soprano hynod, Mercedes Gancedo, gyda Cyd-Gyfarwyddwr Artistig yr ŵyl, y pianydd enwog Julius Drake, ac mae'n bum deg munud ddwys yn llawn gorfoledd ac anobaith.*

Saturday 24 Aug
Nos Sadwrn 24 Awst

10.00pm £15
Y Tabernacl
1hr

**Fred Thomas**
Keyboard & transcriptions
**Yaoré Talibart** Violin
**Ben Michaels** Cello





# A Celebration of Bach

**Late Night by Candlelight**

An atmospheric late night celebration of the music of J.S. Bach, with some of the composer's organ chorale preludes, vocal cantata movements and orchestral sinfonias adapted for tonight's trio by the brilliant Fred Thomas.

*Dathliad atmosfferig ddiwedd nos o gerddoriaeth y cyfansoddwr J.S. Bach, gyda rhai o'i breliwdiau corawl ar gyfer yr organ, symudiadau cantata lleisiol a sinffoniâu cerddorfaol wedi'u haddasu ar gyfer y triawd heno gan Fred Thomas.*




Saturday 24 Aug
Nos Sadwrn 24 Awst

7.30pm £22
Y Tabernacl







# Schubert's Trout Quintet

Schubert's Trout Quintet has been an audience favourite since its premiere and it's not hard to see why, full of irresistibly feel-good music including a soulful slow movement and an ending that's infused with the sounds of Hungarian folk music. It shares the bill tonight with Dohnányi's Sextet; turbulent, heroic and playful, plus delightfully sunny music by Duchess Anna Amalia and the nervous energy of Mark Simpson's evocation of the night.

*Mae Pumawd Brithyll Schubert wedi bod yn ffefryn ymysg cynulleidfaoedd ers y perfformiad cyntaf erioed, ac nid yw'n anodd gweld pam. Mae'n llawn cerddoriaeth sy'n gwneud i chi deimlo'n hapus, gan gynnwys symudiad araf bywiog a diweddglo sy'n llawn synau cerddoriaeth werin Hwngari. Mae'n rhannu'r llwyfan heno gyda Chwechawd Dohnányi; cerddoriaeth gythryblus, arwrol, chwareus a hyfryd gan Duchess Anna Amalia ac egni nerfus atgof Mark Simpson o'r noson.*

## Kaleidoscope Chamber Collective

COOK'S TOURS
see p19
free
6.30pm
TEITHIAU COOK

**Duchess Anna Amalia of Brunswick-Wolfenbüttel**
Divertimento in B flat major for clarinet, viola, cello and piano
**Mark Simpson** Nachtstück for horn and piano
**Ernö Dohnányi** Sextet for strings, piano, clarinet, horn Op. 37
**Franz Schubert** Quintet for piano and strings, *The Trout*

Sunday 25 Aug
Dydd Sul 25 Awst

2.00pm £22
Y Tabernacl
2hrs / interval *egwyl*









# Finale!

**Natalya Romaniw** Soprano
**John Ieuan Jones** Baritone
**Alis Huws** Harp
**Julius Drake** Piano

The final concert of the festival is a joyous coming together of Welsh and classical music, performed by three of Wales' greatest artists, combining forces with Festival Co-Artistic Director, Julius Drake. From the evocative sounds of Grace Williams' Hiraeth for solo harp and powerful and stirring Welsh songs, to some of the most famous of operatic arias, the afternoon has something for everyone. A celebratory end to the Festival - join us.

Programme includes:
**Claude Debussy** Clair de Lune
**Edvard Grieg** Four Songs
**Grace Williams** Hiraeth
**Meirion Williams** Aros Mae'r Mynyddau Mawr
**Dilys Elwyn-Edwards** Mae hiraeth yn y mor
**Haldon Evans** Dros y Mynydd
and arias from **Carmen, Madam Butterfly, Don Giovanni** and **South Pacific**.

*Mae cyngerdd olaf yr ŵyl yn gyfuniad llawen o gerddoriaeth Gymreig a chlasurol, gyda thri o artistiaid gorau Cymru yn perfformio, gyda Cyd-Gyfarwyddwr Artistigyr Ŵyl Julius Drake. O sain atgofus Hiraeth Grace Williams ar y delyn, a chaneuon cynhyrfus Cymreig, i rai o'r ariâu operatig enwocaf, mae gan y prynhawn rywbeth i bawb. Dathliad i gloi'r Ŵyl - dewch atom.*



Box Office / Swyddfa Tocynnau: **01654 703355**



Café open 10am - 3pm
Bar open from 6.15pm

## Y Tabernacl Café & Bar

The Tabernacle Café & Bar will be open daily throughout the Festival week with a selection of snacks, cakes and beverages, and for pre-concert and interval drinks. For your convenience and to avoid long queues, interval drinks can also be ordered before the performance starts.

*Bydd Caffi a Bar y Tabernacl ar agor bob dydd drwy gydol wythnos yr Ŵyl gyda dewis o fyrbrydau, cacennau a diodydd, a diodydd cyn cyngherddau ac yn ystod yr egwyl. Er hwylustod ac i osgoi aros hir, gellir archebu diodydd ar gyfer yr egwyl cyn i'r perfformiad gychwyn.*

# Plan your visit...

**The Festival's base is the Museum of Modern Art Machynlleth (MOMA) and its beautiful Tabernacle.**

MOMA and The Tabernacle are in the centre of Machynlleth, a short distance from the train and bus stations. Machynlleth is served by regular trains direct from Birmingham, with connections from across the UK as well as buses linking across Wales.

For those travelling by car, parking is available at Heol Maengwyn car park.


**Visit our website for full travel and venue information.**

***Pencadlys yr Ŵyl yw'r Amgueddfa Celfyddyd Fodern Machynlleth (MOMA) a'i Thabernacl hardd.***

*Mae MOMA a'r Tabernacl yng nghanol Machynlleth, bellter byr o'r gorsafoedd bws a thrên. Mae Machynlleth yn cael ei gwasanaethu â threnau rheolaidd o Firmingham, gyda chysylltiadau o bob rhan o'r DU oddi yno, yn ogystal â bysiau sy'n cysylltu â phob rhan o Gymru.*

*I'r sawl sydd am deithio â char mae maes parcio ar gael yn Heol Maengwyn.*

***Ewch i'n gwefan i gael gwybodaeth lawn am deithio a lleoliadau.***



# Cook's Tours

COOK'S TOURS free TEITHIAU COOK



**Join us as Christopher Cook guides us through the evening's music in a series of pre-concert interviews and talks.**

**Non-ticketed events, simply turn up!**

***Ymunwch â ni wrth i Christopher Cook ein tywys drwy gerddoriaeth y noson mewn cyfres o gyfweliadau a sgyrsiau cyn y cyngerdd.***

**Digwyddiadau heb docyn, dewch draw!**

Thursday 22 Aug
Nos Iau 22 Awst
6.30pm Y Tabernacl

## Sir John Tomlinson in Conversation
## *Sgwrs gyda Sir John Tomlinson*

John Tomlinson is one of the most admired basses of his generation, notably as a Wagnerian. He performed at every Bayreuth Festival from 1988 to 2006 taking the roles of Wotan, Hagen, King Marke and Gurnemanz. He has sung for English National Opera and at the Royal Opera House in London where he created the role of the Minotaur in Harrison Birtwistle's opera. “I owe my enthusiasm for singing to the Lancashire community and family I grew up with, where we regularly sang round the piano at home, and where many members if my family were singers, conductors, organists and pianists, all strictly amateur of course and proud if it.” John Tomlinson talks to Christopher Cook about singing and Wagner, Birtwistle and teaching a new generation.

*Mae John Tomlinson yn un o'r baswyr sy'n cael eu hedmygu fwyaf yn ei genhedlaeth. Perfformiodd ym mhob Gŵyl Bayreuth rhwng 1988 a 2006, gan gymryd rolau Wotan, Hagen, Brenin Marc a Gurnemanz. Mae wedi canu i Opera Cenedlaethol Lloegr ac yn y Tŷ Opera Brenhinol yn Llundain lle creodd rôl Minotaur yn opera Harrison Birtwistle. “Mae fy nyled yn fawr i gymuned Swydd Gaerhirfryn a fy nheulu am sbarduno fy mrwdfrydedd dros ganu. Roedden ni'n canu o amgylch y piano'n rheolaidd gartref, ac roedd llawer o fy nheulu'n gantorion, yn arweinwyr, yn organyddion ac yn bianyddion, amatur wrth gwrs, ac yn falch o hynny.” John Tomlinson yn siarad â Christopher Cook am ganu, Wagner a Birtwistle ac am addysgu cenhedlaeth newydd.*

Friday 23 Aug
Nos Wener 23 Awst

6.30pm Y Tabernacl

## Ménage a Quatuor

When you are not playing, you're rehearsing; and when you are not rehearsing then you're probably on the road together. Someone once suggested that if the wife of the leader of a string quartet should contemplate divorce, then the quartet could be cited as a 'third party'! A string quartet is an intimate conversation, conducted by four musicians overheard by an audience. Johannes Marmen, who leads the Marmen Quartet and the cellist of the Doric Quartet, John Myerscough talk to Christopher Cook about those intimate conversations, about life in a string quartet, choice of repertoire, music-making and friendship.

*Pan nad ydych chi'n chwarae, rydych chi'n ymarfer; a phan nad ydych chi'n ymarfer, mae'n debyg eich bod chi ar daith gyda'ch gilydd. Awgrymodd rhywun unwaith pe bai gwraig arweinydd pedwarawd llinynnol yn ystyried ysgariad, y gellid cyfeirio at y pedwarawd fel 'trydydd parti'! Mae pedwarawd llinynnol yn sgwrs bersonol, sy'n cael ei harwain gan bedwar cerddor y mae cynulleidfa'n digwydd bod yn gwrando arnynt. Mae Johannes Marmen, arweinydd y Pedwarawd Marmen, a soddgrythor y Pedwarawd Doric, John Myerscough, yn siarad â Christopher Cook am y sgyrsiau personol hynny, am fywyd fel rhan o bedwarawd llinynnol, y dewis o ran repertoire, creu cerddoriaeth a chyfeillgarwch.*

"Mae'r cymysgedd o gerddoriaeth a digwyddiadau yn fy siwtio'n dda iawn. Roedd yr ansawdd yn anhygoel"

Dyfyniad gan aelod o'r gynulleidfa

Saturday 24 Aug
Nos Sadwrn 24 Awst

6.30pm Y Tabernacl

## Shaking the Kaleidoscope *Ysgwyd y Caleidosgop*

"Chamber music has an extraordinary power to bring people together: it unites musicians as equals, and draws listeners into its intimate, transportive world."

No one who has listened to music at the Machynlleth Festival could disagree with the Kaleidoscope Collective. But how does this ensemble of musicians juggle the demands of music making and family life, a career as a soloist with playing in a group? The American violinist Elena Urioste and the British pianist Tom Poster talk to Christopher Cook about forming the Kaleidoscope Collective and how everyday demands intersect with high artistic ambitions.

*"Mae gan gerddoriaeth siambr bŵer arbennig i ddod â phobl at ei gilydd: mae'n uno cerddorion fel pobl gyfartal, ac mae'n denu gwrandawyr i'w byd bach ei hun."*

*Ni allai unrhyw un sydd wedi gwrando ar gerddoriaeth yng Ngŵyl Machynlleth anghytuno â'r Kaleidoscope Collective. Ond sut mae'r ensemble hwn o gerddorion yn cydbwyso gofynion creu cerddoriaeth a bywyd teuluol, a gyrfa fel unawdydd a chwarae fel aelod o grŵp? Bydd y feiolinydd o America, Elena Urioste, a'r pianydd o Brydain, Tom Poster, yn siarad â Christopher Cook am ffurfio'r Kaleidoscope Collective, a sut mae galwadau bob dydd yn cyd-fynd ag uchelgeisiau artistig.*

Tuesday 20 Aug
Dydd Mawrth 20 Awst
4.00pm



**SPONSOR'S CONCERT**

# Cabaret!

**Damien Pass** Baritone
**Alphonse Cemin** Piano

Our annual exclusive event for Festival Benefactors and Sponsors - our way of saying thank you for your support. This year we're joined by this wonderful duo for a very special intimate cabaret performance.

If you're interested in supporting the festival and gaining access to this event, then please do consider becoming a Benefactor - details below.

*Dyma ein digwyddiad blynyddol arbennig ar gyfer Cymwynaswyr a Noddwyr yr Ŵyl – ein ffordd ni o ddiolch i chi am eich cefnogaeth. Eleni, bydd y ddeuawd hyfryd hon yn ymuno â ni ar gyfer perfformiad cabaret hynod arbennig ac agos-atoch.*

*Os ydych chi'n awyddus i gefnogi'r ŵyl a chael mynediad i'r digwyddiad hwn, ystyriwch fod yn Gymwynaswr – manylion isod.*

## Make the music happen: **Become a Festival Benefactor**

Each and every year the Machynlleth festival brings a truly spectacular array of artists to Machynlleth for this very special Festival. Characterised by the diversity of music, the exceptional quality, the warmth of the welcome, the intimacy of the Tabernacle and the very beautiful surroundings, it's truly a Festival like no other. The Festival Benefactors are crucial in ensuring the Festival not just survives but thrives, and as a token of thanks you'll be invited to the annual Sponsors' Concert, receive priority booking and a discount on season tickets, and you'll also be credited in our brochure.

Benefactor Membership is £250, to join or find out more visit **bit.ly/FestivalBenefactors**, scan the QR code, call us on **01654 703355** or email us at **info@moma.machynlleth.org.uk**

## Gwnewch gymwynas â'r gerddoriaeth: **Byddwch yn un o Gymwynaswyr yr Ŵyl**

Bob blwyddyn, bydd amrywiaeth wirioneddol anhygoel o artistiaid yn dod i Fachynlleth ar gyfer yr ŵyl arbennig hon. Mae'n ŵyl heb ei thebyg, sy'n adnabyddus am amrywiaeth y gerddoriaeth, yr ansawdd eithriadol, cynhesrwydd y croeso, agosatrwydd y Tabernacl, a'r amgylchedd hardd. Mae Cymwynaswyr yr Ŵyl yn hanfodol i sicrhau bod yr ŵyl yn goroesi ac yn ffynnu. I ddiolch i chi am fod yn gymwynaswr, byddwch yn cael eich gwahodd i Gyngerdd Blynyddol y Noddwyr, yn cael archebu tocynnau tymor cyn pawb arall ac am bris rhatach, ac yn cael eich cydnabod yn ein llyfryn.

Mae Aelodaeth Cymwynaswr yn costio £250. I ymaelodi neu i gael rhagor o wybodaeth, ewch i **bit.ly/FestivalBenefactors**, sganiwch y cod QR, ffoniwch ni ar **01654 703355** neu anfonwch e-bost atom yn **info@moma.machynlleth.org.uk**

# Benefactors

**We are immensely grateful to the following Benefactors who have supported the 2024 Festival:**

***Rydym yn hynod ddiolchgar i'r cymwynaswyr canlynol sydd wedi cefnogi Gwyl 2024:***

BH2

Julius & Belinda Drake

Andy & Jane Duff

Philip & Margaret Jones

Humphrey LLoyd

Kate Olver & Jeremy Young

Susan & Peter Slator

Richard Lloyd-Morgan

Prof Richard Mayou

Alex & Sian Reid

Sally Marshall

Stephen & Lucy Richards

TOWIF

Robert Jones

Anonymous Benefactors

# Sponsors



**We are very grateful to the following:**
***Rydym yn ddiolchgar iawn i'r canlynol:***

Lambert Family Foundation

Friends of the Tabernacle

J. B. Roberts & Son Ltd, Corris

Major & Evans, Chartered Certified Accountants

Mid Wales Storage Centre

Milwyn Jenkins & Jenkins Solicitors Ltd

Pen'rallt Gallery Bookshop
& Siop Lyfrau'r Senedd-dy

Rees Astley Insurance Brokers Ltd

Ysgubor Newydd, Royal House

And many more.

# Exhibitions

MOMA MACHYNLLETH 40 1984 2024



22 June to 4 September
22 Mehefin i 4 Medi

## Tabernacle Art Competition 2024

### On a Windy Day / Ar Ddiwrnod Gwyntog

The annual open competition attracts entries from around the world. The exhibition is selected by a panel of judges, who also award prizes. Awards from the public are presented at the end of the show, so come in and vote!

*Mae'r gystadleuaeth agored flynyddol yn denu ceisiadau o bob rhan o'r byd. Caiff yr arddangosfa ei dethol gan banel o feirniaid, sydd hefyd yn dyfarnu gwobrau. Cyflwynir gwobrau'r cyhoedd ar ddiwedd y sioe, felly dewch i bleidleisio!*



22 June to 4 September
22 Mehefin i 4 Medi

## Aled Lewis

### Making the Cut / Toriad y Saer

This exhibition of sketches, drawings and furniture by Aled Lewis gives an insight into the process of designing and developing ideas into pieces of fine furniture. Craft and design are two inseparable elements of making, though the process and the journey to finished work is seldom seen or understood. Aled reveals the ideas and drawings alongside the finished work to provide a glimpse into the creative process.

*Mae'r arddangosfa hon o frasluniau, lluniadau a dodrefn gan Aled Lewis yn rhoi cipolwg ar y broses o ddylunio a datblygu syniadau'n ddarnau o ddodrefn cain. Does dim modd cael crefft heb ddylunio wrth greu; er nad yw'r broses na'r daith tuag at y gwaith gorffenedig yn aml yn cael eu gweld na'u deall. Mae Aled yn datgelu'r syniadau a'r lluniadau ochr yn ochr â'r gwaith gorffenedig i roi cipolwg ar y broses greadigol.*



Box Office / Swyddfa Tocynnau: **01654 703355**



22 June to 4 September
22 Mehefin i 4 Medi

## Tabernacle Collection

### The Sea / Y Môr


Starting with a few important paintings in 1986 the Trust has built up a permanent collection which now contains over 500 works, covering a wide range of subjects and themes. The Trust are extremely grateful to everyone who has contributed, however great or small.

*Gan ddechrau gydag ychydig o baentiadau pwysig yn 1986, mae'r Ymddiriedolaeth wedi creu casgliad parhaol sydd bellach yn cynnwys dros 500 o weithiau, sy'n cwmpasu amrywiaeth eang o bynciau a themâu. Mae'r Ymddiriedolaeth yn hynod ddiolchgar i bawb sydd wedi cyfrannu, pa bynnag mor fawr neu fach.*

20 July to 14 September
20 Gorffennaf i 14 Medi

## Llio James

### 90°



Llio James works from her studio in Cardiff, Wales, using a traditional dobby loom – designing the cloth in the studio to be produced at local mills in Wales and England. She also creates unique commission pieces which are hand woven. Llio's inspiration comes from the feeling of belonging to country and culture and this is strongly expressed in her work.

*Mae Llio James yn gweithio o'i stiwdio yng Nghaerdydd, gan ddefnyddio gŵydd 'dobi' traddodiadol. Mae'n dylunio'r brethyn yn y stiwdio a chaiff ei gynhyrchu mewn melinau lleol yng Nghymru a Lloegr. Mae hi hefyd yn creu darnau comisiwn unigryw wedi'u gwehyddu â llaw. Daw ysbrydoliaeth Llio o'r teimlad o berthyn i wlad a diwylliant ac mae hyn yn cael ei fynegi'n gryf yn ei gwaith.*



3 August to 14 September
3 Awst i 14 Medi

## Terence Lambert

### Pencil Studies / Astudiaethau Pensil

Terence Lambert has created a collection of observational drawings of fauna that has inspired him over the last six months of this year.

After the inspiration of observation in the field, seeing birds as they are, Terence strives to capture not just the details but the personality of his subjects in his paintings. He also refers to his extensive collection of specimens.

*Mae Terence Lambert wedi creu casgliad o luniadau arsylwadol o'r anifeiliaid sydd wedi'i ysbrydoli dros chwe mis diwethaf eleni.*

*Ar ôl cael ei ysbrydoli wrth arsylwi yn y maes, a gweld adar fel y maen nhw, mae Terence yn ceisio cyfleu personoliaeth, yn ogystal â manylion ei wrthrychau yn ei beintiadau. Mae hefyd yn cyfeirio at ei gasgliad helaeth o sbesimenau.*

MOMA MACHYNLLETH

# Tickets & Information

**Event tickets available now from our website or in store at MOMA Machynlleth.**

**Students**
Tickets start from just £5

**Children** - New this year
Children go FREE for all events!

**Friends of the Tabernacle**
£2 off all tickets

***Tocynnau ar gael nawr o'n gwefan neu o siop MOMA Machynlleth.***

***Myfyrwyr***
*Tocynnau yn dechrau o £5 yn unig*

***Plant*** *- Newydd eleni Plant yn mynd AM DDIM ar gyfer pob digwyddiad!*

***Cyfeillion y Tabernacl***
*Gostyngiad o £2 ar bob tocyn*

## See more, Save more

Save up to £50, enjoy a priority reserved seat and get access to every single event with our **season ticket** - available now for £220, or £180 for Friends of the Tabernacle (membership starts from £10).

All other tickets unreserved.

## *Gweld mwy, Arbed mwy*

*Arbedwch hyd at £50, mwynhewch sedd cadw a chael mynediad i bob digwyddiad gyda'n **tocyn tymor** – ar gael nawr am £220, neu £180 i Gyfeillion Y Tabernacl (aelodaeth yn dechrau o £10).*

*Pob tocyn arall yn seddi heb eu cadw.*




MOMA Machynlleth
Y Tabernacl, Heol Penrallt
Machynlleth, Powys, SY20 8AJ
**info@moma.machynlleth.org.uk**

**Preview the music!**
Visit our website to listen to playlists for many of this year's concerts.
*Ewch i'n wefan i wrando ar restrau chwarae nifer o gyngherddau'r flwyddyn hon.*